# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 9 Mai 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Addysgu Ieithoedd Bloc mewn Ysgolion

**C8 Lorraine Barrett:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gychwyn addysgu ieithoedd bloc mewn ysgolion? (OAQ17337)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Un o nifer o systemau cyfathrebu amgen yw ieithoedd bloc. Er nad oes dim byd i rwystro cyflwyno cwricwla priodol drwy'r cyfrwng hwn, mewn ysgolion arbennig nac mewn ysgolion prif ffrwd, penderfyniad i dîm rheoli'r ysgol yw defnyddio ieithoedd bloc.

### Arian i Ysgolion mewn Cymunedau Difreintiedig

**C9 John Griffiths:** Pa strategaeth sydd ar waith i sicrhau arian ychwanegol i ysgolion sy'n gwasanaethu ein cymunedau mwyaf difreintiedig? (OAQ17398)

**Jane Davidson:** Awdurdodau lleol sy'n derbyn arian ar gyfer ysgolion drwy setliad refeniw blynyddol llywodraeth leol. Mae'r fformiwla asesu gwariant safonol a ddefnyddir i ddyrannu adnoddau rhwng yr awdurdodau yn cynnwys nifer o ffactorau sy'n ystyried amddifadedd.

Penderfynir ar gyllidebau dirprwyedig yr ysgolion drwy'r fformiwla ariannu lleol y mae'r awdurdodau lleol yn ei defnyddio ar gyfer cyllidebau ysgolion unigol. Mae'r rheoliadau'n caniatáu i awdurdodau gynnwys ffactorau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd yn eu fformiwlâu.

Gall awdurdod lleol ddefnyddio'i gyfran o'r grant ychwanegol o £25 miliwn a ddarperir gan y Cynulliad ar gyfer gostwng maint dosbarthiadau oed cynradd, gwella cyrhaeddiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chefnogi ysgolion sy'n tanberfformio, i dargedu ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig os y dymunant. Gall hefyd ddefnyddio rhai elfennau o'r cyllid dan y grantiau cefnogi addysg a hyfforddiant yn yr un ffordd.

### Cydweithredu rhwng Ysgolion

**C10 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cydweithredu sy'n digwydd rhwng ysgolion yn nwyrain Powys a Lloegr? (OAQ17331)

**Jane Davidson:** Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn meddu ar wybodaeth ar gydweithredu rhwng ysgolion unigol.

## Cymorth Addysgol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

**C11 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cymorth addysgol a roddir i blant y gofelir amdanynt mewn ysgolion yng Nghymru? (OAQ17347)

**Jane Davidson:** Ar gyfer 2002-03, neilltuwyd £10.86 miliwn dan y grantiau ar gyfer hyfforddiant a gwasanaethau addysg ar gyfer mynd i'r afael â holl faes anfantais cymdeithasol. Mae'n cynnwys arian er mwyn gwella cyrhaeddiad addysgol plant y gofelir amdanynt, materion presenoldeb ac ymddygiad a chyflawniad disgyblion o leiafrifoedd ethnig. Gall awdurdodau addysg lleol benderfynu sut i wario'r adnoddau hyn o fewn y paramedrau eang sy'n cael eu gosod.

Ym mis Tachwedd 2001, cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol gylchlythyr 2/2001 'Cyfarwyddyd ar Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol'. Mae'r canllawiau yn cyfeirio at dargedau cenedlaethol presennol a mesurau y mae rheidrwydd i awdurdodau addysg lleol eu rhoi ar waith er mwyn codi cyrhaeddiad addysgol. Ar 20 Mai 2002, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal cynhadledd yn theatr y Pafiliwn, Llandrindod, a fydd yn codi proffil y canllawiau ac yn lledaenu ymarfer da.

## Hybu Busnesau Newydd

**C12 Peter Black:** Pa waith sydd gan y Gweinidog ar y gweill i annog prifysgolion a cholegau yng Nghymru i hybu busnesau newydd ar sail y gwaith ymchwil y maent yn ei wneud? (OAQ17390) [R]

**Jane Davidson:** Yr wyf yn rhannu diddordeb y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn y maes hwn. Credaf ein bod rhyngom, ynghyd ag Awdurdod Datblygu Cymru, yn gwneud cryn dipyn i hybu mwy o ddefnydd o wybodaeth ac arbenigedd academaidd Cymru, a gwneud defnydd masnachol mwy effeithiol ohonynt.

O safbwynt addysg a hyfforddiant, y prif arf ar hyn o bryd yw'r gronfa datblygu gwybodaeth sy'n werth £34 miliwn. Fe'i sefydlwyd gennyf yn 2000 i ategu cynllun gweithredu entrepreneuriaeth Cymru. Pennwyd targedau uchelgeisiol iawn gan y gronfa datblygu gwybodaeth ac mae'n gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r rhain. Mae rhaglen ddeillio Cymru sy'n cynnig cymorth mwy penodol yn cael rhywfaint o lwyddiant hefyd.

Gan edrych ymlaen, atgyfnerthir pwysigrwydd strategol trosglwyddo gwybodaeth yn 'Ymgeisio yn Uwch', lle cyfeiriwn, ymysg pethau eraill, at y posibilrwydd o ddatblygu portffolios masnacheiddio, a'r opsiwn o ffrwd ariannu unigol newydd er mwyn cefnogi gweithgareddau datblygu gwybodaeth.

## Arholiadau Cyfrwng Cymraeg

**C13 Glyn Davies:** Pa gamau y mae Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer arholiadau cyfrwng Cymraeg yn cael eu cofrestru ar gyfer yr arholiad priodol? (OAQ17397)

**Jane Davidson:** Mae cofrestru ar gyfer arholiadau yn rhwym wrth reoliadau cofrestru Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, sy'n nodi'n glir na ddylai disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf gael eu cofrestru ar gyfer arholiad ail iaith. Mae'n amhriodol ac yn addysgol annerbyniol cofrestru disgyblion sydd â'r gallu i sefyll arholiad iaith gyntaf ar gyfer arholiad ail iaith. Yn wir, byddai cwrs ail iaith i'r disgyblion hyn yn gam yn ôl wedi iddynt ddilyn y cwrs astudio Cymraeg yng nghyfnod allweddol 3.

## Ysgolion Bychain yng Nghymru

**C14 Delyth Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith ei hadroddiad grant arbennig newydd ar ysgolion bychain yng Nghymru? (OAQ17329)

**Jane Davidson:** Dim ond ar 30 Ebrill y cymeradwywyd y grant hwn gan y Cynulliad. Nid yw awdurdodau addysg lleol wedi derbyn eu dyraniadau eto, nac wedi cael amser i ystyried sut y byddant yn defnyddio'r arian. Felly, ni allaf ddweud beth fydd yr effaith ar ysgolion bach. Yr wyf wedi gosod meini prawf eang iawn yn fwriadol ar gyfer defnyddio'r arian, er mwyn i AALlau ymateb i amgylchiadau penodol yn eu hardaloedd. Gobeithiaf weld ymarferion blaengar yn dod i'r wyneb a fydd yn gwella effeithiolrwydd trefniadau'r ddarpariaeth addysgol. Nod cyffredinol y grant yw helpu i godi safonau addysg ar gyfer disgyblion Cymru.

### Dyfodol Prifysgol Cymru

**C15 Cynog Dafis:** Pa drefniadau sydd gan y Gweinidog ar y gweill i gynnal trafodaethau ynghylch dyfodol Prifysgol Cymru? (OAQ17394) [W]

**Jane Davidson:** Mater i aelodau'r Brifysgol yn bennaf yw dyfodol Prifysgol ffederal Cymru. Fodd bynnag, deallaf fod Prifysgol Cymru yn adolygu ei gweithrediadau o fewn cyd-destun sector a ail-gyfluniwyd.

Cyfarfûm yn ddiweddar â Syr David Williams, sy'n cynnal yr adolygiad hwn o Brifysgol Cymru, ac edrychaf ymlaen at weld cyhoeddi ei adroddiad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Cyfleusterau Adfer i'r rhai sy'n Ddibynnol ar Gyffuriau

**C9 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth o gyfleusterau adfer i'r rhai sy'n ddibynnol ar gyffuriau caled? (OAQ17303)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae tystiolaeth ar gael i ddangos fod rhai triniaethau ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn effeithiol. Gall triniaeth helpu pobl i leihau eu defnydd o alcohol neu gyffuriau neu ymatal yn llwyr, gall hefyd wella iechyd corfforol a meddyliol a lleihau trosglwyddo firysau a gludir yn y gwaed megis hepatitis B a C a HIV. Gall triniaeth hefyd leihau'r perygl o farwolaeth oherwydd cyffuriau, a chael effaith sylweddol ar droseddu sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.

### Blocio Gwelyau yng Ngogledd Cymru

**C10 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar flocio gwelyau yng ngogledd Cymru? (OAQ17327)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn ymwybodol fod awdurdodau lleol yn y Gogledd yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth iechyd gwladol a'r sectorau annibynnol a gwirfoddol yn barod i gryfhau eu cynlluniau a'u camau gweithredu i wella gwasanaethau gofal a sicrhau llai o oedi wrth drosglwyddo gofal. Sefydlwyd sawl cynllun er mwyn mynd i'r afael â'r mater o oedi wrth drosglwyddo gofal.

Er enghraifft, mae'r tîm asesu gofal yr henoed sy'n cael ei redeg ar y cyd rhwng y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghonwy wedi canolbwyntio ar sgrinio cleifion oedrannus yn gynnar er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y gwasanaeth mwyaf priodol ac amserol, gan olygu na fydd pobl hŷn yn cael eu cadw mewn ysbytai yn ddiangen. Mae sawl cynllun arall yn gweithredu yng ngogledd Cymru.

Er mwyn helpu partneriaid lleol i leihau'r oedi wrth drosglwyddo gofal, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu £5 miliwn i awdurdodau lleol ar draws Cymru yn 2001-02 a bydd yn cynyddu'r swm i £12 miliwn ar gyfer 2002-03, cyfanswm o £17 miliwn dros y ddwy flynedd. Disgwylir gostyngiad mesuradwy yn yr oedi wrth drosglwyddo gofal o ganlyniad i'r arian hwn a chytunir ar dargedau yn y man fel rhan o delerau ac amodau'r cynllun grant.

**Strwythur Gweinyddol Newydd**

**C11 Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi amlinelliad o’r arbedion y gellid eu gwneud drwy fabwysiadu strwythur gweinyddol newydd yn 2003? (OAQ17388)

**Jane Hutt:** Er na fyddaf yn disgwyl gweld cynnydd yn y gwariant gweithredol rheolaidd o ganlyniad i’r newid strwythurol, nid wyf yn rhagweld y cawn arbedion o reidrwydd yn sgîl y strwythur gweinyddol newydd.

**Codi Cyflogau Nyrsys**

**C12 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gynlluniau i godi cyflogau nyrsys yng Nghymru? (OAQ17374)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb y corff adolygu annibynnol ar gyfer nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd yw penderfynu ar gyflogau nyrsys. Bydd unrhyw gynlluniau i godi cyflogau nyrsys y flwyddyn nesaf yn ffurfio rhan o dystiolaeth ysgrifenedig yr adrannau iechyd a fydd yn cael ei chyflwyno yn yr haf.

**Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru**

**C13 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar berfformiad y gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru? (OAQ17322)

**Jane Hutt:** Cofnodir perfformiad y gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru yn chwarterol ac fe’i mesurir yn erbyn pedair safon perfformio. Ceir amrywiadau mewn perfformiad rhwng ardaloedd awdurdodau lleol, ond mae’r ffigurau diweddaraf ar gyfer Cymru gyfan (o 1 Hydref tan 31 Rhagfyr 2001) yn dangos:

- bod tua 92 y cant o alwadau brys wedi cyrraedd o fewn 14 munud mewn ardaloedd trefol, 18 munud mewn ardaloedd gwledig a 21 munud mewn ardaloedd tenau’u poblogaeth;
- bod tua 91 y cant o bob galwad brys arall wedi cyrraedd o fewn yr amseroedd hyn;
- bod tua 82 y cant o alwadau brys meddygon wedi cyrraedd o fewn 15 munud i’r amser dynodedig.

Mae’r ymddiriedolaeth ambiwlans yn parhau i weithio’n galed i wella perfformiad yn erbyn y safon wyth-munud ar gyfer ymateb cyntaf i alwadau brys lle mae bywyd yn y fantol. Er gwaetha’r galw uwch, mae perfformiad wedi aros ar yr un lefelau â’r un cyfnod y llynedd, a dylai’r dyraniad ychwanegol o £1 miliwn a roddwyd i’r gwasanaeth ambiwlans gan y Cynulliad, swm a gyhoeddwyd gennyf ddiwedd 2001, fod yn hwb i welliannau pellach.

**Gwasanaethau Mamolaeth ym Mhowys**

**C14 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau mamolaeth ym Mhowys? (OAQ17321)

**Jane Hutt:** Yr ydym yn cymryd camau i wella gwasanaethau mamolaeth ledled Cymru a bydd hwn yn ffurfio rhan o’r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i blant.

Cwblhawyd cam 1 astudiaeth i ddatblygu gwasanaeth sgrinio cyn-geni safonol i wella dewisiadau pob merch feichiog yn ddiweddar, a chytunais y gellir symud ymlaen gyda cham 2 y prosiect, a gynhelir yn ystod 2002-03.

**Gwasanaeth Teliffon ar gael i Gleifion y Gwasanaeth Iechyd yng Ngogledd Cymru**

**C15 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaeth teliffon ar gael i gleifion y gwasanaeth iechyd yng ngogledd Cymru? (OAQ17387) [W]

**Jane Hutt:** Mater gweithredol i benderfynu arno a'i reoli gan y gwahanol ymddiriedolaethau yw darparu gwasanaethau teliffon i gleifion y GIG mewn ysbytai yng ngogledd Cymru. Mae Galw Iechyd Cymru ar gael yn gyffredinol yng ngogledd Cymru.